# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3613

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 6 ccwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 14.18

**NDM6026**
**David Melding (Canol De Cymru)**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Lee Waters (Llanelli)**
**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**
**Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o gryfhau dulliau gweithio rhwng adrannau i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Cefnogir gan:
Lynne Neagle (Torfaen)
Nick Ramsay (Mynwy)
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)
Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Mark Isherwood (Gogledd Cymru)
Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.09

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6052** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai Bil Cymru wneud darpariaeth i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno pleidlais sengl drosglwyddadwy ar bob lefel, ac eithrio etholiadau i Senedd Ewrop a Thŷ'r Cyffredin, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg ar gyfer pob safbwynt wleidyddol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru i" ac yn ei le rhoi "benderfynu ar drefniadau etholiadol sydd ar gyfer Cymru yn unig yn y dyfodol."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 1 | 11 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

NDM6052 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai Bil Cymru wneud darpariaeth i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i benderfynu ar drefniadau etholiadol sydd ar gyfer Cymru yn unig yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 1 | 2 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 5 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.27

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM6053 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai:

(a) egwyddorion llywodraeth agored gael eu cynnal ym mhob maes cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru;

(b) y Cod Gweinidogol gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael ei gymeradwyo ganddo; ac

(c) dyfarnwr annibynnol gael ei benodi i adrodd yn gyhoeddus ar unrhyw achosion o dorri'r Cod.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwyntiau (b) ac (c) a rhoi pwynt newydd yn eu lle:

Yn nodi ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru i ymchwilio i ffyrdd o gryfhau Cod y Gweinidogion a'r modd y mae'n gweithredu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 1 | 21 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai bod yn agored a thryloyw yn y broses gwneud penderfyniadau yn cael ei gwella drwy sicrhau bod penodiadau allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Cymraeg, yn cael eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 30 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb yn ffurfiol i'r pryderon a godwyd ym maniffesto plaid Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg bod Gweinidogion Cymru wedi gallu torri'r Cod Gweinidogol heb gosb.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM6053 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai egwyddorion llywodraeth agored gael eu cynnal ym mhob maes cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru;

2. Yn nodi ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru i ymchwilio i ffyrdd o gryfhau Cod y Gweinidogion a'r modd y mae'n gweithredu.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb yn ffurfiol i'r pryderon a godwyd ym maniffesto plaid Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg bod Gweinidogion Cymru wedi gallu torri'r Cod Gweinidogol heb gosb.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 1 | 21 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.47

**NDM6050 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rhan y mae llygredd aer yn ei chwarae yng nghanlyniadau iechyd cymunedau ledled Cymru.

2. Yn nodi bod Sefydliad Iechyd y Byd wedi canfod bod llygredd gronynnol wedi codi wyth y cant yn fyd-eang yn y pum mlynedd diwethaf, gydag arbenigwyr yn y DU yn credu bod tua 29,000 o farwolaethau yn gysylltiedig â llygredd aer.

3. Yn mynegi pryder ynghylch lefel y llygredd aer yng Nghymru, gan nodi mai yng Nghrymlyn, yng Nghaerffili, y mae'r lefelau uchaf o nitrogen deuocsid wedi'u cofnodi y tu allan i Lundain, a bod tystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i ymgynghoriad gan GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015 wedi canfod cysylltiad uniongyrchol rhwng llygredd aer a chynnydd mewn achosion o glefyd anadlol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth allyriadau isel effeithiol, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, i leihau allyriadau llygryddion aer.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 16.50

## Datganiad y Llywydd: Ethol cadeiryddion pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 16.56

Cyhoeddodd y Llywydd  ganlyniadau etholiad cadeiryddion y pwyllgorau yn y drefn a ganlyn:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

| Julie Morgan | Lynne Neagle | Ymatal |
|---|---|---|
| 25 | 31 | 1 |

Cyhoeddodd y Llywydd fod Lynne Neagle wedi ei hethol yn Gadeirydd **y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**.

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

| Russell George | Janet Finch-Saunders | Ymatal |
|---|---|---|
| 41 | 13 | 3 |

Cyhoeddodd y Llywydd fod Russell George wedi ei ethol yn Gadeirydd **Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

| John Griffiths | Lee Waters | Jenny Rathbone | Ymatal |
|---|---|---|---|
| 33 | 13 | 9 | 2 |

Gan fod John Griffiths wedi derbyn mwy na hanner y pleidleisiau dewis cyntaf yn y balot, cyhoeddodd y Llywydd ei fod wedi ei ethol yn Gadeirydd **y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.**

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

| Dai Lloyd | Rhun ap Iorwerth | Ymatal |
|---|---|---|
| 43 | 14 | 0 |

Cyhoeddodd y Llywydd fod Dai Lloyd wedi ei ethol yn Gadeirydd **y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

| Darren Millar | Mark Isherwood | Nick Ramsay | Ymatal |
|---|---|---|---|
| 17 | 7 | 31 | 2 |

Gan fod Nick Ramsay wedi derbyn mwy na hanner y pleidleisiau dewis cyntaf yn y balot, cyhoeddodd y Llywydd ei fod wedi ei ethol yn Gadeirydd **y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.**

## 8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 16.59

**NDM6051 Rhianon Passmore (Islwyn)**

Ysgolion yr 21ain Ganrif: Mwy na rhaglen adeiladu.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.22

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2016**